**EITEM AR YR AGENDA: 13**

# GWASANAETH TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU

# ADRODDIAD AR GYFER YR AWDURDOD TÂN

| | |
|---|---|
| DYDDIAD: | 15fed Rhagfyr 2003 |
| ADRODDIAD GAN: | **Y PRIF SWYDDOG TÂN** |
| DIBEN YR ADRODDIAD: | Gofyn i'r Awdurdod Tân gadarnhau argymhellion y Panel Gweithredol yn dilyn yr adolygiad o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth. |

1. **GWYBODAETH**

1.1 Yn y cyfarfod o'r Awdurdod Tân ar 16eg Mehefin 2003, penderfynwyd y dylai'r Panel Gweithredol wneud adolygiad o'r penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth ac adrodd ei argymhellion i'r cyfarfod o'r Awdurdod Tân yn Rhagfyr 2003.

1.2 Bu'r Panel Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 27ain Hydref 2003, yn ystyried yr adolygiad a ymgymerwyd gan y Prif Swyddog Tân ac argymhellwyd bod y penodiadau statudol a'r cytundebau lefel gwasanaeth yn aros gyda'r darparwyr presennol.

**2. Y CYTUNDEBAU LEFEL GWASANAETH**

2.1 Adolygwyd y cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer gwasanaethau ariannol, pensiynau'r ymladdwyr tân a gwasanaethau cyfreithiol ac roedd y Panel Gweithredol yn fodlon gyda'r holl drefniadau. Maent wedi cael eu diweddaru ac nid oes unrhyw newidiadau mawr. Bydd y trefniadau yma am bedair blynedd arall, gan ddechrau ar 1af Ebrill 2004, a chaiff hyn ei adolygu bob blwyddyn yn unol â'r Mynegai Prisiau Adwerthu (RPI), neu, yn achos yr elfennau ffioedd, yn unol â'r dyfarniad cyflog canrannol i Brif Swyddogion llywodraeth leol (nid yw ffioedd y ddwy swydd wedi codi ers 1996). Cyfanswm y gost gan gynnwys ffioedd y swyddogion statudol fydd:

| | |
|---|---|
| Clerc a chyngor cyfansoddiadol | £15,000 |
| Gwasanaethau Cyfreithiol | £5,000 |
| Trysorydd a Gwasanaethau Ariannol | £65,790 |
| Gwasanaethau Pensiynau | £11,330 |

**3. <u>Y PENODIADAU STATUDOL</u>**

3.1 Bu'r Panel Gweithredol yn ystyried penodiadau statudol y Clerc/Swyddog Monitro a'r Trysorydd ac roeddynt yn fodlon â'r trefniadau presennol. Bydd y penodiadau statudol am bedair blynedd arall gan ddechrau ar 1af Ebrill 2004.

**4. <u>ARGYMHELLION</u>**

4.1 Cadarnhau argymhellion y Panel Gweithredol bod:

(i) penodiad statudol y Clerc/Swyddog Monitro yn parhau i'w dal gan Brif Weithredwr Cyngor Sir Ddinbych a bod y cytundeb lefel gwasanaeth Cyfreithiol yn parhau gyda Chyngor Sir Ddinbych;

(ii) penodiad statudol y Trysorydd yn parhau i'w dal gan Gyfarwyddwr Cyllid Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy a'r cytundeb lefel gwasanaeth Ariannol yn parhau gyda Chyngor Bwrdeistref Sirol Conwy; a

(iii) bod cytundeb lefel gwasanaeth darpariaeth Bensiynau'r Ymladdwyr Tân yn parhau gyda Cyngor Sir y Fflint.